

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crwydro'r Senedd

National Assembly for Wales
Explore the Senedd



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

The National Assembly for Wales is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people, makes laws for Wales and holds the Welsh Government to account.

Explore the Senedd
Welcome

Croeso i'r Senedd, cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Agorodd y Senedd yn 2006, ac mae bellach yn un o adeiladau mwyaf nodedig Cymru. Mae'n cynrychioli cyfnod arwyddocaol yn hanes datganoli yng Nghymru – hanes sy'n ymestyn yn ôl ganrifoedd. Erbyn hyn, wrth i bwerau gael eu datganoli'n raddol i Gymru o Senedd y DU yn Llundain, caiff cyfreithiau eu gwneud ar gyfer Cymru yn y Senedd yng Nghaerdydd hefyd. Ar hyn o bryd, rydych yn sefyll yn yr adeilad lle, yn 2008, pasiwyd y gyfraith gyntaf yng Nghymru ers y ddegfed ganrif.

Mae'r adeilad a'r Siambr ei hun yn fannau cyhoeddus sy'n symbolau o ddemocratiaeth eglur, agored a thryloyw. Os ydych yma i edmygu'r elfennau pensaernïol neu i wyllo democratiaeth ar waith, gobeithio y bydd y canllaw hwn yn llawn gwybodaeth ac yn eich helpu i fwynhau eich ymweliad.

Welcome to the Senedd, home of the National Assembly for Wales. Since its opening in 2006, the Senedd has become one of Wales's most iconic buildings. It represents a significant stage in the story of devolution in Wales, which can be traced back many centuries. Following the gradual process of devolving powers to Wales from the UK Parliament in London, the Senedd is where laws for Wales are made. You currently stand in the building where, in 2008, a Welsh law was passed for the first time since the 10th century.

The building and the Siambr itself are public spaces which symbolise clarity, openness and transparency. Whether you're here for the architecture or to witness democracy in action, we hope this guide will make your visit both enjoyable and informative.

Explore the Senedd

Neuadd

Y Neuadd yw'r enw ar yr ardal fawr lle mae'r dderbynfa. Yma gallwch drefnu i wyllo trafodion y Cynulliad o'r oriel gyhoeddus. Gofynnwch wrth y dderbynfa a bydd ein staff yn fwy na pharod i helpu neu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Mae'r to pren hardd yn y Senedd yn dynwared symudiad a siâp tonnau'r môr. Mae wedi'i adeiladu o gedrwydden goch o fforestydd cynaliadwy yng Ngholumbia Brydeinig, ac o ddur gorau de Cymru. Ychydig iawn o waith cynnal a chadw sydd ei angen ar y pren, gan nad yw'n pydru a chan nad oes angen ei drin. Yn wir, mae'r olew naturiol yn y pren yn golygu bod modd iddo bara am ganrif a mwy heb fod angen gwneud dim iddo. Mae'r Neuadd hefyd yn lle delfrydol i edrych ar y golygfeydd gwych dros Fae Caerdydd, gan gynnwys adeilad enwog y Pierhead.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfrannodd y Pierhead at danio hunaniaeth Cymru 'wrth ddŵr a thân'; ei nod heddiw yw argyhoeddi, cynrychioli ac ysbrydoli cenhedlaeth newydd i'n harwain tuag at Gymru'r dyfodol. Ar 3 Mawrth 2010, cafodd y Pierhead ei ailagor i'r cyhoedd fel atyniad i ymwelwyr, ac yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad i gynnal digwyddiadau a chynadleddau sy'n cyd-fynd â gwaith y Cynulliad.

The large space which houses the reception area is called the Neuadd. Here you can arrange to watch proceedings in our public gallery. Ask at reception where our staff will be happy to assist or answer any questions you may have during your visit.

The Senedd's beautiful wooden roof is shaped to reflect the movement and contours of the waves. It is made from Western Red cedarwood from sustainable forests in British Columbia and the finest steel from south Wales. Low in maintenance, the wood doesn't rot or need treating; its natural oils allow it to go untreated for at least 100 years. The Neuadd is also the perfect place to take in the wonderful views over Cardiff Bay, including the iconic Pierhead.

The Pierhead helped Wales forge its identity 'through water and fire' in the late nineteenth century; today its aim is to inform, involve and inspire a new generation to forge a Wales for the future. On 3 March 2010 the Pierhead was re-opened to the public as a visitor attraction and an events and conference venue to complement the work of the Assembly.



AGORWYD GAN EI MAWRHYD YN ENHINES
OPENED BY HER MAJESTY THE QUEEN ON 13-5-2006



Explore the Senedd
Sustainability

Un o nodweddion cynaliadwy eraill y Senedd yw'r dull o gasglu dŵr glaw drwy'r ddwy beipen ddur ym mhen blaen yr adeilad. Bydd y dŵr hwnnw'n llifo i danc mawr ac yn cael ei brosesu drwy hidlydd uwchfioled yn barod i'w aildefnyddio yn y cyfleusterau cyhoeddus.

Mae'r ffenestri, sydd wedi'u hinswleiddio, wedi'u gwneud o wydr cyfnerth a byddant yn agor ac yn cau'n awtomatig i gadw tymheredd yr adeilad yn gyson. Mae hyn yn golygu nad oes angen gwneud defnydd gormodol o'r system aerdymheru yn ystod yr haf, ac mae'n fodd o gadw gwres yn ystod y gaeaf.

Another of the Senedd's sustainable features is the method of collecting rain water via the two steel pipes at the front of the building. The water is channelled to a large tank and processed through an ultra-violet filter ready to be re-used in the public conveniences.

The windows, made from reinforced and insulated glass, open and close automatically, maintaining a constant temperature in the building. This minimises the use of air conditioning during the summer and helps the building retain heat in the winter.

Oriel

Explore the Senedd

Oriel

Yr Oriel yw'r enw ar yr ardal ar ben y grisiau sy'n amgylchynu'r twndis mawr yng nghanol yr adeilad. Mae'r twndis yn helpu i adlewyrchu golau naturiol i mewn i'r Siambr o lusern wydr, gan ddefnyddio cyfres o beipiau alwminiwm sy'n gorchuddio ochrau mewnol y twndis. Mae'r twndis ar siâp coeden, a bwriad hynny yw annog ymwelwyr i ymgynnull yma a rhannu syniadau.

Mae'r Oriel yn addas iawn i'r diben hwn, gyda chaffi a siop y Senedd yn y cefn. Mae caffi'r Senedd ar agor saith diwrnod yr wythnos, ac mae diodydd poeth ac oer, brechdanau a byrbrydau ar gael yno. Mae siop y Senedd yn llwyfan i dalent Cymru ac yn rhoi cyfle i chi brynu anrhegion a nwyddau.


Ceir yma sgriniau sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am y Senedd a'r hyn sy'n digwydd yma o ddydd i ddydd.

The area at the top of the stairs which surrounds the large funnel at the centre of the building is called the Oriel. The funnel helps reflect natural light downwards into the Siambr from a glass lantern, using a collection of aluminium pipes which cover the inside of the funnel. The tree-like shape of the funnel is intended to encourage visitors to meet here and share ideas.

The Oriel lends itself very well to this purpose, with the Senedd café and shop at the back. The Senedd café is open seven days a week, and offers hot and cold drinks, sandwiches and snacks. The Senedd shop showcases the best of Welsh talent and offers an opportunity to purchase souvenirs and gifts.

Information pods provide general information on the Senedd and a guide to what's on.





Explore the Senedd
Plenary meetings

Mae gan y Cynulliad 60 o Aelodau Cynulliad etholedig sy'n cynrychioli ardaloedd penodol yng Nghymru, a hynny fel aelodau o bleidiau penodol: Ceidwadwyr Cymreig, Llafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru neu Plaid Cymru.

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor, a hynny i drafod materion sydd o bwys i Gymru a'i phobl. Byddant yn gofyn cwestiynau i Weinidogion Llywodraeth Cymru, yn cynnal dadleuon ar bolisiau Llywodraeth Cymru ac adroddiadau pwyllgorau, ac yn craffu ar gyfreithiau Cymru. Yr enw ar y cyfarfodydd wythnosol hyn lle bydd y 60 Aelod Cynulliad yn cymryd rhan yw 'Cyfarfod Llawn'. Cynhelir y Cyfarfod Llawn yn y Siambr ar brynhawn dydd Mawrth a phrynhawn dydd Mercher, o 13.30. Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad, sy'n cadeirio'r cyfarfodydd hyn.

The Assembly is made up of 60 elected Assembly Members, who represent a specific area of Wales as a member of a particular party: Welsh Conservatives, Welsh Labour, Welsh Liberal Democrats or Plaid Cymru.

Assembly Members meet every week when the Assembly is in session to discuss issues of importance to Wales and its people. They pose questions to Welsh Government Ministers, examine Welsh laws and carry out debates on Welsh Government policies and committee reports. These weekly meetings of all 60 Assembly Members are referred to as 'Plenary meetings' which take place in the Siambr on Tuesday and Wednesday afternoons from 13.30. They are chaired by the Presiding Officer, Rosemary Butler AM.

Crwydro'r Senedd
Aelodau'r Cynulliad

10

Explore the Senedd
Assembly Members

 30

Llafur Cymru

Welsh Labour

 14

Y Ceidwadwyr Cymreig

Welsh Conservatives

 11

Plaid Cymru

The Party of Wales


 05


Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Welsh Liberal Democrats

Y Llywydd/Presiding Officer

Ysgrifennydd Gwladol Cymru/Secretary of State for Wales





Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol

Constituencies and Electoral Regions

Ffiniau rhanbarthau




Regional boundary

Etholaethau



Constituencies



Gogledd Cymru

North Wales

Rhun ap Iorwerth 01 ●
Ynys Môn

Alun Ffred Jones 02 ●
Arfon

Janet Finch-Saunders 03 ●
Aberconwy

Darren Millar 04 ●
Gorllewin Clwyd
Clwyd West

Ann Jones 05 ●
Dyffryn Clwyd
Vale of Clwyd

Sandy Mewies 06 ●
Delyn

Carl Sargeant 07 ●
Alun a Glannau Dyfrdwy
Alyn and Deeside

Lesley Griffiths 08 ●
Wrecsam
Wrexham

Ken Skates 09 ●
De Clwyd
Clwyd South

Llyr Huws Gruffydd 01–09 ●
Gogledd Cymru
North Wales

Mark Isherwood 01–09 ●
Gogledd Cymru
North Wales

Aled Roberts 01–09 ●
Gogledd Cymru
North Wales

Antoinette Sandbach 01–09 ●
Gogledd Cymru
North Wales

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales

Yr Arglwydd/Lord Elis-Thomas 10 ●
Dwyfor Meirionnydd

Russell George 11 ●
Sir Drefaldwyn
Montgomeryshire

Elin Jones 12 ●
Ceredigion

Kirsty Williams 13 ●
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Brecon and Radnorshire

Paul Davies 14 ●
Preseli Sir Benfro
Preseli Pembrokeshire

Angela Burns 15 ●
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Carmarthen West and South Pembrokeshire

Rhodri Glyn Thomas 16 ●
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr

Keith Davies 17 ●
Llanelli

Rebecca Evans 10–17 ●
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales

William Powell 10–17 ●
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales

Simon Thomas 10–17 ●
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales

Joyce Watson 10–17 ●
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales

Gorllewin De Cymru

South Wales West

Edwina Hart 18 ●
Gŵyr
Gower

Julie James 19 ●
Gorllewin Abertawe
Swansea West

Mike Hedges 20 ●
Dwyrain Abertawe
Swansea East

Gwenda Thomas 21 ●
Castell-nedd
Neath

David Rees 22 ●
Aberafan
Aberavon

Janice Gregory 23 ●
Ogwr
Ogmore

Carwyn Jones 24 ●
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend

Peter Black 18–24 ●
Gorllewin De Cymru
South Wales West

Byron Davies 18–24 ●
Gorllewin De Cymru
South Wales West

Suzy Davies 18–24 ●
Gorllewin De Cymru
South Wales West

Bethan Jenkins 18–24 ●
Gorllewin De Cymru
South Wales West

Canol De Cymru

South Wales Central

Leighton Andrews 25 ●
Rhondda

Christine Chapman 26 ●
Cwm Cynon
Cynon Valley

Mick Antoniw 27 ●
Pontypridd

Jane Hutt 28 ●
Bro Morgannwg
Vale of Glamorgan

Mark Drakeford 29 ●
Gorllewin Caerdydd
Cardiff West

Julie Morgan 30 ●
Gogledd Caerdydd
Cardiff North

Jenny Rathbone 31 ●
Canol Caerdydd
Cardiff Central

Vaughan Gething 32 ●
De Caerdydd a Phenarth
Cardiff South and Penarth

Andrew R T Davies 25–32 ●
Canol De Cymru
South Wales Central

David Melding 25–32 ●
Canol De Cymru
South Wales Central

Eluned Parrott 25–32 ●
Canol De Cymru
South Wales Central

Leanne Wood 25–32 ●
Canol De Cymru
South Wales Central

Dwyrain De Cymru

South Wales East

Huw Lewis 33 ●
Merthyr Tudful a Rhymni
Merthyr Tydfil and Rhymney

Alun Davies 34 ●
Blaenau Gwent

Lynne Neagle 35 ●
Tor-faen
Torfaen

Nick Ramsay 36 ●
Mynwy
Monmouth

Jeff Cuthbert 37 ●
Caerffili
Caerphilly

Gwyn R Price 38 ●
Islwyn

Rosemary Butler 39 ●
Gorllewin Casnewydd
Newport West

John Griffiths 40 ●
Dwyrain Casnewydd
Newport East

Mohammad Asghar 33–40 ●
Dwyrain De Cymru
South Wales East

Jocelyn Davies 33–40 ●
Dwyrain De Cymru
South Wales East

William Graham 33–40 ●
Dwyrain De Cymru
South Wales East

Lindsay Whittle 33–40 ●
Dwyrain De Cymru
South Wales East

Explore the Senedd
Public gallery

Gall ymwelwyr wyllo'r broses ddemocrataidd o'r oriel gyhoeddus. Os ydych eisoes wedi trefnu i fynd i'r Cyfarfod Llawn, dangoswch eich tocyn ac ewch i mewn. Os na fydd y Cynulliad yn eistedd y diwrnod hwnnw, croeso i chi fynd i mewn beth bynnag i gael golwg ar y Siambr. Mae'r fynedfa i'r oriel gyhoeddus ger y dderbynfa.

The public gallery is the place where visitors can watch democracy in action. If you've already arranged to watch Plenary, you can just show your ticket and make your way in. If you're visiting on a non-business day, you can still go in and look down into the Siambr. Entry to the public gallery is on the ground floor.





**Explore the Senedd
Siambr**

Mae croeso i'r cyhoedd ddod i wyllo'r Cyfarfod Llawn unrhyw bryd o'r oriel gyhoeddus. Mae gan bawb yn yr oriel gyhoeddus hefyd ei sgrîn ei hun er mwyn gwyllo'r trafodion. Bydd y camerâu yn dilyn y siaradwr fel y gallwch weld popeth sy'n digwydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r clustffonau i wrando ar gyfieithiad Saesneg o bopeth a gaiff ei ddweud yn Gymraeg.

Os edrychwch i lawr i'r Siambr, gwelwch fod gan bob Aelod Cynulliad ei gyfrifiadur ei hun er mwyn defnyddio'r rhyngwrwyd ac i bleidleisio. Mae pob cyfrifiadur wedi'i gysylltu â sgriniau o amgylch y Siambr, a phan gynhelir pleidlais, caiff y canlyniad ei ddangos ar unwaith.

Members of the public are welcome to come and watch Plenary any time from our public gallery. Each person in the public gallery also has access to a screen on which they can watch proceedings. The cameras focus in on the person speaking so you can see what's happening all around the Siambr. You can also use the headphones provided to listen to an English translation of Welsh language proceedings.

Looking down into the Siambr you can see that each Assembly Member has their own computer from which they can access the internet and vote. Each computer is linked to screens around the Siambr so that when a vote is carried out the results are instantly displayed.

Explore the Senedd
Features

Un o nodweddion mwyaf trawiadol y Siambr yw 'Calon Cymru', sef y darn o waith celf gwydr yng nghanol yr ystafell. Cafodd y gwaith ei greu gan Alexander Beleschenko, yr artist o Abertawe, a aeth ati i ddelweddu'r Cynulliad ar ffurf calon Cymru.


Mae'r dotiau fel pe baent yn symbol o syniadau'n llifo allan o'r Cynulliad ac yna'n ôl i mewn fel syniadau gan bobl Cymru. Cafodd y darn ei greu drwy beintio ar blatiau cryf o wydr trwchus 10mm, a gellir ei oleuo o'r tu mewn gyda golau ffibr-optig.

Nodwedd brydferth arall yw'r byrlysg. Wedi'i greu o aur, arian ac efydd, roedd y byrlysg yn rhodd gan Senedd De Cymru Newydd, Awstralia. Fe'i cyflwynwyd i'r Cynulliad yn ystod Agoriad Brenhinol y Senedd ar 1 Mawrth 2006.

One of the Siambr's most striking features is 'The Heart of Wales', the glass artwork that sits at its centre. Created by Swansea-based artist Alexander Beleschenko, the composition represents the Assembly at the heart of Wales. The dots symbolise ideas flowing outward from the Assembly and feeding in from the people of Wales. The piece was created by painting onto plates of 10mm thick toughened glass and can be lit from underneath using fibre-optic lighting.

Another beautiful feature is the mace. Made from gold, silver and brass, the mace was a gift from the Parliament of New South Wales, Australia, and was presented to the Assembly at the Royal Opening of the Senedd on 1 March 2006.





Explore the Senedd
Committee rooms

Pan fydd pwyllgorau'n cael eu cynnal, croeso i chi wyllo'r trafodion o'r orielau cyhoeddus (gofynnwch wrth y dderbynfa am fanylion). O lefel y Neuadd, gallwch weld i mewn i'r tair ystafell bwyllgora, ac mae modd i ddwy ohonynt gael eu huno i greu un ystafell fawr. Fel yn y Siambr, mae'r ystafelloedd pwyllgora'n defnyddio golau naturiol sy'n llifo i mewn drwy'r waliau gwydr a'r ffenestri yn y to. Yn ogystal â lleihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn yr adeilad, mae'r waliau gwydr hefyd yn sicrhau bod gwaith y Cynulliad o ddeddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn digwydd mewn ffordd agored a thryloyw.

When committees are in session, you're welcome to watch proceedings from the public galleries (ask at reception for details). From the Neuadd level you can look down into three committee rooms, two of which can be joined together to form one large space. Like the Siambr, the committee rooms are illuminated with natural light which floods in via the glass walls and skylights. The glass walls used throughout the building not only reduce the building's energy consumption, but they also ensure that the Assembly's business of making laws for Wales and holding the Welsh Government to account is carried out in a way that is open and transparent.

Explore the Senedd
Get involved

Gobeithio bod eich ymweliad wedi dangos bod y Senedd yn lle agored a chroesawgar, a bod pobl Cymru'n cael eu hannog i fod yn rhan o waith y Cynulliad. Os hoffech drefnu i gael taith dywys neu wyllo Cyfarfod Llawn neu gyfarfod pwyllgor yn ystod eich ymweliad nesaf, ffoniwch ein llinell wybodaeth ar 0845 010 5500.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad, ewch i'n gwefan: www.cynulliadcymru.org neu gymerwch rhan ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

As we hope you've found on your visit, the Senedd is an open and welcoming place where the people of Wales are encouraged to participate in the work of the Assembly. If you'd like to arrange to take a guided tour or watch Plenary or a committee meeting during your next visit, please call our information line on 0845 010 5500.

For more information about what's happening at the Assembly, visit our website: www.assemblywales.org or engage with the Assembly on Facebook, YouTube, Twitter and Flickr.



Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiâu hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk
Ffôn: 0845 010 5500

©Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.


Copies of this report can also be obtained in accessible formats including Braille, large print,

audio or hard copy from:
www.assemblywales.org
assembly.info@wales.gov.uk
assembly.bookings@wales.gov.uk
T 0845 010 5500

©National Assembly for Wales Commission Copyright 2013

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not used in a misleading or derogatory context. The material must be acknowledged as copyright of the National Assembly for Wales Commission and the title of the document specified.

Neuadd



Prif Fynedfa
Main Entrance ①

Diogelwch ac Ystafell Gotiau
Security and Cloakroom ②


Y Dderbynfa
Reception ③

Oriel Gyhoeddus y Siambr
Siambr Public Gallery ④

Orielau Cyhoeddus y Pwyllgorau
Committee Public Galleries ⑤

Toiled â Chymhorthion
Assisted Toilet ⑥

Oriel



Toileddau
Toilets ⑦

Siop a Chaffi
Shop and Café ⑧

Allanfa Dân
Emergency Exit ●

Liffft
Lift □

Grisiau
Stairs ①

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

